

Peli hadau blodau gwyllt

Dyma ffordd ymarferol a chreadigol i ryngweithio â natur.

Byddwch yn greadigol a gwnewch arheg brydfferth i rywun arbennig.

Nid yn unig fydd y peli hadau blodau gwyllt hyn yn hyfryd o liwgar ond byddant hefyd yn denu bywyd gwyllt i'r ardd.



Beth sydd ei angen arnoch :

Powlen fawr

Llwy bren (i fesur blawd a chompost/pridd)

Jwg o ddŵr

Compost / pridd

Blawd

Hadau blodau gwyllt

Hambwrdd

Blwch wyau cardfwrdd gwag

Pennau ffelt i addurno

Rhuban neu linyn i addurno



Dull

1. Mewn powlen fawr cymysgwch 1 rhan blawd gyda 10 rhan compost/pridd.
2. Ychwanegwch y dŵr yn araf a chymysgu nes bod y blawd a'r compost/pridd yn cyfuno i greu toes gludiog.
3. Rholiwch y gymysgedd yn beli bach maint peli golff.
4. Tywalltwch hadau blodau gwyllt ar yr hambwrdd.
5. Rholiwch y peli toes gludiog yn yr hadau blodau gwyllt nes eu bod wedi eu gorchuddio.
6. Gadewch eich peli hadau blodau gwyllt ar yr hambwrdd am o leiaf 2 ddydd i sychu.
7. Addurnwch y blwch wyau i storio eich peli hadau.
8. Llenwch eich blwch wyau gyda pheli hadau blodau gwyllt. Byddai'n gwneud arheg hyfryd.
9. Mae eich peli hadau blodau gwyllt yn barod nawr i gael eu taflu o gwmpas eich gardd!

